


Effaith Toriadau Cyllid Prentisiaethau yng Nghymru

Adroddiad Cebr ar gyfer Colegau Cymru a
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
(NTfW)

Tachwedd 2024





- 3
- 4
- 5
- 6
- 7
- 8
- 9
- 10

- Methodoleg
- Canlyniadau - colled gyffredinol mewn allbwn economaidd
- Canlyniadau - costau toriadau cyllid gan ddiwydiant
- Canlyniadau - costau toriadau cyllid gan ddegradd amddifadedd
- Prentisiaethau gofal iechyd
- Prentisiaethau adeiladu
- Effaith ar ddarparwyr hyfforddiant
- Cysylltu

Methodoleg

- Mae ein dadansoddiad yn canolbwyntio ar effaith economaidd colli 5,750 o brentisiaethau yng Nghymru oherwydd toriadau cyllid. Byddwn yn mesur yr effaith o ran y golled mewn allbwn economaidd, sy'n cynnwys effeithiau ar unwaith, sy'n cael eu mesur gan gyfraniadau Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) a gollwyd oherwydd colli gweithgaredd prentisiaeth, ac effeithiau hirdymor ar gynhyrchiant oherwydd oedi mynediad i'r gweithlu a lefelau sgiliau is. [1]
- Cafwyd y data ar brentisiaid a'u nodweddion o Stats Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y nifer o brentisiaid mewn grwpiau oedran, sectorau a lefelau amddifadedd. Buom yn defnyddio data cyhoeddus gan Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion SYG (ASHE) i amcangyfrif cyflog cyfartalog yn ôl ystod oedran yng Nghymru; ac Arolwg Busnes Blynyddol (ABS) i amcangyfrif cymhareb enillion-GYC gweithwyr yng Nghymru. Gan mai ar weithwyr 18 oed a hyn yn unig y mae'r SYG yn casglu data, ar gyfer y dadansoddiad hwn, rydym wedi cymryd yn ganiataol fod prentisiaid yn cychwyn gweithio yn 18 oed.
- Rydym wedi gosod y prentisiaid mewn dau grŵp: y rhai oedd mewn prentisiaeth pan yn 18-24 oed, a'r rhai oedd mewn prentisiaeth yn 25 oed neu'n hyn. Mae methodoleg y ddau grŵp ychydig yn wahanol. Wrth ddadansoddi effeithiau tymor byr ar y grŵp oedran ieuengaf, roeddem yn cymryd yn ganiataol fod y costau economaidd yn cynnwys cost gweithiwr posibl na fyddai'n gyflogedig am gyfnod byr. Yn yr achos hwn, rydym wedi cymryd yn ganiataol y byddai unigolion 18-24 oed yn ddi-waith am flwyddyn heb y prentisiaethau, tra byddai'r rhai 25 oed a hyn (a fyddai'n gyflogedig mae'n debygol ac yn dilyn prentisiaeth yn eu gweithle presennol) yn parhau i weithio, ond ddim yn elwa o godiad cyflog (ac felly, cynhyrchiant) y byddai prentisiaeth wedi ei roi iddynt. Felly, ar gyfer y grŵp oedran hyn, y gwahaniaeth mewn cynhyrchiant rhwng prentis a rhywun nad yw'n brentis, yw'r effeithiau tymor byr a hirdymor.
- I gyfrifo effaith hirdymor ar weithwyr 18-24 oed, roeddem yn cymryd yn ganiataol fod yr effeithiau ar ddysgwyr sy'n treulio blwyddyn yn ddi-waith yn cael eu teimlo drwy gyfraniad GYC is gan y gweithwyr yr effeithir arnynt, yn deillio o'r ffaith fod eu profiad, sgiliau ac o'r herwydd cynhyrchiant flwyddyn ar ei hôl hi i'w gymharu â'r rhai oedd yn gweithio ac yn datblygu'r un lefel o sgil. At ddiben ein hymchwil, buom yn edrych ar yr effaith hirdymor mewn dwy sefyllfa wahanol.
- Roedd y sefyllfa gyntaf yn edrych ar oedi parhaus wrth gynhyrchu, rhwng gweithwyr oedd wedi cwblhau prentisiaeth a gweithwyr nad oedd. O gymryd yn ganiataol fod y gweithlu ifanc yma wedi bod yn ddi-waith am flwyddyn, rydym yn rhagweld, oherwydd y bwlch yn eu sgiliau, y byddai'r gweithwyr ar ei hôl hi o flwyddyn mewn cynhyrchiant. Golyga hyn, er enghraifft, y byddai gweithiwr 20 oed yn cynhyrchu'r un faint â gweithiwr 19 oed oedd yn gweithio, ac yn datblygu'r un faint o sgiliau.
- Yn y sefyllfa hon, gwneir rhagdybiaeth o gydgyfeiriant rhannol gymharol mewn cynhyrchiant. Gan fod GYC i bob gweithiwr yn cynyddu dros amser, bydd rhywfaint o'r golled gychwynnol yn cael ei phontio. Fodd bynnag, bydd cynhyrchiant yn aros yn is na'r hyn a fyddai tan tua 50 oed, a dyma pryd, fel yr awgryma'r data, y bydd cynhyrchiant cyfartalog pob gweithiwr yn cyrhaedd ei anterth. O hyn ymlaen, rydym wedi cymryd yn ganiataol fod cynhyrchiant cyfartalog yr unigolyn yn gyfartal yn y ddwy sefyllfa. O'i roi mewn ffordd arall, mae allbwn economaidd y gweithwyr 'gwirioneddol' a'r gweithwyr 'gwrthffeithiol' yn gyfartal erbyn hyn, er gwaethaf colli blwyddyn o gyflogaeth.
- Mae'r ail sefyllfa yn defnyddio methodoleg wahanol, gan ganiatáu i sgiliau dyfu i'r oed perthnasol, ar ôl dychwelyd i gyflogaeth. Mae'r sgiliau a fyddai wedi eu datblygu yn ystod y flwyddyn pan yn ddi-waith yn raddol ddatblygu yn ystod gyfwrtaf unigolyn. Yn seiliedig ar lenyddiaeth cynhyrchiant, amcangyfrifwyd fod cynhyrchiant llafur yn cydgyfeirio i lefel cyflwr sefydlog o 8.6% y flwyddyn. [2] O ystyried hyn, nid yw effeithiau cyfraniadau is GYC y gweithiwr yn barhaol. Yn hytrach, dros y blynyddoedd sy'n weddill yn y gweithlu, mae'r unigolyn yn adfer ei gynhyrchiant coll bron yn llwyr.
- Er bod y dehongliad yn wahanol, rydym yn defnyddio'r un sefyllfa oedd hirdymor i'r gweithwyr 25 oed a hyn. Yn wahanol i'r grŵp oedran iau, nid ydynt yn ddi-waith am flwyddyn. Mae colli cynhyrchiant yn deillio o ddiffyg profiad a sgiliau o ganlyniad i beidio gallu sicrhau prentisiaeth. Oherwydd hyn, nid yw'r toriadau cyllid mor heriol i'r grŵp oedran hwn.
- Yn syml, rydym yn cymryd yn ganiataol fod y grŵp oedran ieuengaf yn cychwyn eu prentisiaethau yn 18 oed, a'r rhai yn y grŵp hyn yn cychwyn yn 25 oed.

[1] Mesur gwerth y cynhyrchiant yn y cyfrifon cenedlaethol mae GYC, neu gwerth ychwanegol gros. Yn gysniadol, gellir ei ystyried yn werth yr hyn a gynhyrchir, gan dynnu gwerth y nwyddau canolradd a'r gwasanaethau i'w cynhyrchu allan ohono. Caiff GYC ei ddsbarthu mewn tair ffordd - i weithwyr, i gyfrandalwyr ac i'r llywodraeth. Fe'i defnyddir yn aml i amcangyfrif cyfraniad sector neu ddiwydiant i CDG (Cynnyrch Domestig Gros): y berthynas yw GYC + Trethi ar gynhyrchion - cymorthdaliadau ar gynhyrchion = CDG.

[2] Ahmad. N., & Naveed. A. (2016). 'Cyfdgyfeiriant cynhyrchiant llafur a newidiadau strwythurol: dadansoddiad ar y pryd ar lefel gwlad, rhanbarth a diwydiant.' Strwythurau Economaidd. 5(19).

Canlyniadau - colled gyffredinol mewn allbwn economaidd

Mae effaith economaidd torri bron i 6,000 o brentisiaethau yn gyfystyr â thua £50.3 miliwn o GYC wedi ei golli yn y tymor byr, ond yn yr hirdymor, gallai colled oes bosibl mewn allbwn economaidd ymgynraedd at £215.7 miliwn.

- Ar gyfartaledd, cyflog gweithwyr 18-21 oed yng Nghymru yw £12,570, yn seiliedig ar ddata SYG a dadansoddiad Cebr. Rydym yn amcangyfrif y bydd hwn yn codi i £19,296, rhag ofn i rywun gofrestru ar brentisiaeth.

Effaith tymor byr

- Gan ystyried y tymor byr fel cyfnod o flwyddyn, y golled economaidd bosibl o fod yn ddi-waith am flwyddyn yw **£21,314 i bob prentis** ymysg gweithwyr a fyddai wedi cychwyn prentisiaeth yn 18 oed. Yn gyffredinol, pe baem yn adio'r holl weithwyr a gollodd eu swyddi oherwydd y toriadau cyllid, mae'n ymgynraedd at **£50 miliwn**. Mae'r gwerth hwn yn cynnwys cyfradd gostyngiad y llywodraeth, a'i werth presennol yn 3.5%.
- I'r rhai 25 oed a hŷn, dangosodd modelu blaenorol y Cebr bremiwm cyflog o 0.1% yn unig ar ôl cwblhau prentisiaeth. Oherwydd hyn, mae'r golled economaidd o'r toriadau prentisiaethau ymysg gweithwyr 25 oed a hŷn yn isel iawn. Y gost tymor byr ymysg y grŵp oedran hŷn yw £156,450. Mae cyfanswm y **gost economaidd tymor byr o gwtogi bron i 6,000 o brentisiaethau yn agos at £50.3 miliwn**.

Tabl 1: Costau economaidd colli cynhyrchiant oherwydd colli prentisiaethau, gwerth presennol, yw £

Grŵp oedran	Colled tymor byr	Colled hirdymor - Sefyllfa 1 (cydgyfeiriant rhannol)	Colled hirdymor - Sefyllfa 2 (cydgyfeiriant o ran datblygu sgiliau)	Cyfanswm y golled (Sefyllfa 1)	Cyfanswm y golled (Sefyllfa 2)
18-24	50,096,426	161,945,417	107,087,128	212,041,842	157,183,554
(25 oed a hŷn)	156,450	3,538,217	1,452,321	3,694,668	1,608,772
Cyfanswm	50,252,876	165,483,634	108,539,450	215,736,510	158,792,325

Effaith hirdymor

- Yn yr hirdymor, yn y sefyllfa gyntaf, lle mae oedi parhaus, amcangyfrifwyd fod y gost hirdymor o leihau cynhyrchiant yn £165 miliwn. Mae'r ail sefyllfa, ble'r ydym yn ymgorffori'r twf sgiliau, yn arwain at amcangyfrif mwy ceidwadol o golled economaidd o £108.5 miliwn.
- O grynhoi'r ffigyrau hyn, cyfanswm y golled economaidd yn y sefyllfa gyntaf yw £215.7 miliwn, tra fod y golled yn £158.8 miliwn yn yr ail sefyllfa, sydd fwy ceidwadol.

Canlyniadau - costau toriadau cyllid gan ddiwydiant

Bydd prif effaith economaidd y toriadau cyllid yn y sector lechyd, ac yn dilyn hynny y gwasanaethau proffesiynol a'r sectorau adeiladu.

- Yn nhabl 2 gwelir canlyniadau'r toriadau cyllid mewn prentisiaethau, wedi eu dadansoddi gan ddiwydiannau SIC lefel 1-digid. Y **golled economaidd yw'r uchaf mewn iechyd Dynol a gweithgareddau cymdeithasol**, sef y trydydd sector mwyaf yng Nghymru. Ymhlith prentisiaid 18 oed, roedd y sector hwn yn cynrychioli mwy na 30% o'r holl golledion. Mae hyn gyfwerth â £63.9 miliwn yn sefyllfa 1 a £47.4 miliwn yn sefyllfa 2. Ymhlith gweithwyr sy'n cychwyn prentisiaeth yn 25 oed, mae'r gyfran hyd yn oed yn uwch: mae mwy na hanner (56%) cyfanswm y golled yn gysylltiedig â'r diwydiant hwn (£2.1 miliwn yn sefyllfa 1, £0.9 miliwn yn sefyllfa 2).
- Y sector gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol welodd yr ail golled fwyaf, a amcangyfrifir i fod rhwng £31.6-42.9 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli bron i 20% o'r holl golledion.
- Y sector adeiladu welodd y drydedd golled fwyaf. Yn gyffredinol, gwelir bron i 20% o'r golled economaidd yn y sector hwn (20.0% ymhlith prentisiaid 18 oed, 2.4% ymhlith rhai 25 oed). Y golled gyffredinol yw £42.5 miliwn yn sefyllfa 1 heb ddatblygu sgiliau, a £31.4 miliwn yn sefyllfa 2 gyda sgiliau wedi'u datblygu.
- Yn ôl y data SYG diweddaraf, y sector mwyaf yng Nghymru yw Gweithgynhyrchu, gydag £11.5 biliwn wedi'i gynhyrchu mewn GYC yn 2022. Mae hyn yn cynrychioli 15.4% o holl GYC Cymru. Fodd bynnag, dim ond 1.3% o gyfanswm colled GYC a brofodd y diwydiant hwnnw (£6.7 miliwn / £4.8 miliwn).

Tabl 2: Costau economaidd colli cynhyrchiant gan ddiwydiant

SIC	Colled GYC	
	Sefyllfa 1 (cydgyfeiriant rhannol)	Sefyllfa 2 (cydgyfeiriant o ran datblygu sgiliau)
Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota	£4,298,998	£3,178,596
Gweithgynhyrchu	£2,777,577	£2,036,118
Adeiladu	£42,461,621	£31,449,232
Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur	£5,351,950	£3,957,087
Trafnidiaeth a Storio	£311,764	£215,752
Llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd	£10,593,109	£7,812,599
Gwybodaeth a chyfathrebu	£2,047,720	£1,504,980
Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	£42,914,178	£31,592,955
Gweithgareddau gweinyddol a'r gwasanaeth cymorth	£22,188,795	£16,355,087
Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol	£66,006,208	£48,288,005
Y celfyddydau, adloniant a hamdden	£7,604,166	£5,604,445
Gweithgareddau gwasanaethau eraill	£9,180,424	£6,797,469
Cyfanswm	£215,736,510	£158,792,325

Ffynhonnell: SYG, Stats Cymru, Ahmad a Naveed (2016) a dadansoddiad Cebr

Canlyniadau - costau toriadau cyllid gan ddegradd amddifadedd

Byddai toriadau cyllid yn cael effaith anghymesur ar y rhannau mwyaf difreintiedig o boblogaeth Cymru

Tabl 3: Costau economaidd colli cynhyrchiant gan ddegradd amddifadedd


Degradd amddifadedd:	Sefyllfa 1 (cydgyfeiriant rhannol)	Sefyllfa 2 (cydgyfeiriant o ran datblygu sgiliau)
Cyfanswm	£215,736,510	£158,792,325
1af - y mwyaf difreintiedig	£24,841,522	£18,284,541
2il	£26,242,717	£19,315,887
3ydd	£24,176,549	£17,795,089
4ydd	£25,126,511	£18,494,307
5ed	£21,540,402	£15,854,760
6ed	£22,062,882	£16,239,330
7fed	£20,257,953	£14,910,816
8fed	£18,073,039	£13,302,616
9fed	£18,833,009	£13,861,990
10fed - y lleiaf difreintiedig	£14,581,926	£10,732,991

- Dengys tabl 3 y golled GYC wedi ei dadansoddi gan ddegradd amddifadedd. Mae'r degradd amddifadedd cyntaf yn cynrychioli 10% isaf y boblogaeth, yr ail yr 11eg-20fed ganradd, ac felly ymlaen.
- **Yr ail ddegradd fyddai'n dioddef fwyaf o doriadau cyllid**, gan mai o'r ddemograffeg hon y byddai y golled GYC fwyaf, gyda £26.2 miliwn yn y sefyllfa gyntaf, ac £19.3 miliwn yn yr ail. Mae hyn yn cynrychioli 12.2% o'r holl golledion.
- **Y degradd mwyaf difreintiedig yw'r drydedd golled fwyaf**, gydag 11.5% o GYC yn cael ei golli o'r degradd hwn. Mae hyn cyfwerth â £24.8 miliwn yn y sefyllfa gyntaf, a £18.3 miliwn yn yr ail.
- **Y 40% isaf (y pedwar degradd cyntaf) fydd yn profi'r golled fwyaf**, gan mai'r pedwar degradd yn y ddemograffeg hon fydd â'r golled GYC fwyaf o ganlyniad i doriadau cyllid. O'u hadio at ei gilydd, maent yn cynrychioli 46.5% o'r holl golledion
- **Mae disgwyl i'r golled GYC fod ar ei hisaf ymhlith y lleiaf difreintiedig.** Bydd y 10fed ganradd yn profi colled GYC o £14.6 miliwn yn y sefyllfa gyntaf, a £10.7 miliwn yn yr ail.
- Ar y cyfan, gallwn gadarnhau y byddai cwtogi cyllid yn peri colled GYC anghymesur yn y degraddau mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn pwysleisio bregusrwydd cynyddol y trawsnewid demograffig hwn, o ystyried fod y **prentisiaid sydd wedi'u heffeithio yn bennaf yn y 40% isaf.** O ganlyniad, byddai toriadau cyllid yn lleihau'n anghyfartal eu rhagolygon gwaith.

Prentisiaethau iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae ffigwr 1 yn dangos nifer y prentisiaethau yn y sector gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cynnwys gofal cymdeithasol a gwaith ieuenctid. Y nifer cyfartalog o brentisiaethau o 2015 i 2023 oedd 9,656, ond roedd ar ei uchaf yn 2017/2018 ar 12,060. Yn ogystal â hynny, mae gan ofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus y gyfran uchaf o brentisiaethau ar draws pob sector, gyda'r gyfran o brentisiaethau yn aros uwchben y traean o 2015 i 2023.
- O ganlyniad i'r toriad mewn cyllid mae'n bosibl fod **2,613 yn llai o brentisiaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol**, sy'n cyfyngu ar ymgeiswyr newydd yn y gweithlu, gan gael effaith ar **gynhyrchedd**, ble mae **72% o sefydliadau yn adrodd am well cynhyrchedd gyda phrentisiaid**. [1]
- Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'r GIG yng Nghymru wedi methu yn gyson â chyrraedd eu targed o drin 95% o gleifion yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys o dan 4 awr [2]. Cred Cymdeithas Feddygol Prydain i hyn ddigwydd oherwydd fod gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym, a phrinder staff gofal iechyd llawn amser. Mae prentisiaethau yn llwybr fforddiadwy i hyfforddi, sy'n hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau yn y gweithlu.
- Yn ôl canfyddiadau'r Sioe Rheoli Gofal, mae 92% o'r cwmnïau gofal sy'n cyflogi prentisiaid yn dweud fod ganddynt weithlu mwy brwdfrydig, tra bod 80% wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cadw gweithwyr oherwydd prentisiaethau.[3] O ganlyniad, byddai lleihau'r nifer o brentisiaethau sydd ar gael yn cael effaith negyddol ar y system gofal cymdeithasol, gan fod y rhaglenni hyn yn cael eu hystyried yn fodd cost effeithiol i hyfforddi gweithwyr newydd ac ymdrin â'r prinder o sgiliau cyfredol yn y sector.[4]

Ffigwr 1: Y nifer sy'n cychwyn prentisiaethau mewn gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus



Ffigwr 2: Y nifer sy'n cychwyn prentisiaethau mewn gofal iechyd fesul rhaglen yn 2022/23




Ffynhonnell: Stats Cymru

[1] [GIG](#) [2] [BMA](#) [3] [caremanagementshow](#). [4] [uvac](#)

Prentisiaethau adeiladu

- Mae ffigurwr 3 yn dangos faint o brentisiaid oedd yn y diwydiant adeiladu o 2015 i 2023. Mae'r nifer cyfartalog o brentisiaethau mewn adeiladu wastad yn uwch na 2,000 o brentisiaid y flwyddyn, ond roedd ar ei uchaf yn 2021/22 ar 2,760.
- Yn dilyn y toriad mewn cyllid, mae ein dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd 565 o brentisiaid yn llai yn y diwydiant adeiladu, sy'n cynrychioli 25% o gyfanswm y prentisiaethau adeiladu yn 2022/23. Rhagwelir y bydd y gostyngiad hwn yn lleihau'r Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) hyd at £42.5 miliwn, sy'n gyfwerth ag 20% o gyfanswm colled GYC a ragwelwn o'r toriadau cyllid.
- Yn ôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, mae gan Gymru 8,900 o weithwyr adeiladu yn cychwyn yn flynyddol, ond 9,200 yn gadael, gan greu colled net. I gwrdd â galw'r diwydiant, bydd angen 2,200 o weithwyr ychwanegol yn flynyddol tan 2028. Byddai toriadau cyllid i brentisiaethau yn gwaethygu'r sefyllfa, gan gyfyngu ar allu'r diwydiant i gadw i fyny ag anghenion datblygu a seilwaith.

Ffigurwr 3: Y nifer sy'n cychwyn prentisiaethau yn y diwydiant adeiladu.



Ffynhonnell: Stats Cymru

- Yn ôl MCG Construction, "wrth ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth gynhwysfawr i'r prentisiaid, gall cyflogwyr greu gweithwyr proffesiynol medrus sy'n cyd-fynd â gwerthoedd, diwylliant ac arferion eu cwmni". Yn ychwanegol, " mae gallu cynhenid y prentisiaid i addasu ac arloesi yn caniatáu i fusnesau aros yn gystadleuol mewn diwydiant sydd wastad yn datblygu." [1]
- Mae 78% o gyflogwyr yn adrodd am gynhyrchiant uwch gan brentisiaid oherwydd y sgiliau a ddysgwyd ganddynt tra'n gweithio. Yn ychwanegol, mae 74% o gyflogwyr yn adrodd bod prentisiaid nid yn unig yn cynhyrchu mwy, ond hefyd yn cynhyrchu gwaith o safon uwch. [2] Dengys hyn fod buddion i'r diwydiant adeiladu pan maent yn cyflogi prentisiaid, a cholli rhywfaint o hyn pe bai prentisiaethau yn cael eu lleihau.

[1] [MCG Construction](#)


[2] [SL2](#)

Yr effaith ar ddarparwyr hyfforddiant

Byddai colled gyfunol o **87.7 o swyddi Cyfwerth â Llawn Amser** ymhlith holl ddarparwyr hyfforddiant, gan gynnwys is-gontractwyr. Byddai cyfanswm y golled cyflog oherwydd y diswyddiadau hyn yn ymgyrraedd at **£2.42 miliwn**, gydag amcangyfrif o **effaith GYC o £4.85 miliwn** ar economi Cymru.

- Rydym yn gwerthuso effaith economaidd y diswyddiadau ymhlith darparwyr hyfforddiant o ganlyniad i doriadau cyllid prentisiaethau. Gan ddefnyddio data gan NTFW ar ddiswyddiadau a chyflogau cyfartalog, rydym yn amcangyfrif bod **colled o 61.7 o swyddi Cyfwerth â Llawn Amser (FTE) hyd yn hyn ymhlith deiliaid comisiwn cyswllt uniongyrchol** (darparwyr hyfforddiant). Amcangyfrifir fod cyfanswm y golled cyflog oherwydd y diswyddiadau hyn yn **£1.67 miliwn**.
- Rydym yn amcangyfrif bod y diswyddiadau hyn yn golygu colled o **£3.36 miliwn mewn GYC i economi Cymru. Dengys ffigur 4 ddsbarthiad y golled hon ar draws y swyddi gwahanol.**
- Mae'r colledion mwyaf i swyddi ymhlith Aseswyr, Tiwtoriaid, a Mentoriaid Dysgu, swyddi hanfodol ar gyfer darparu prentisiaethau. Dengys hyn yn glir bod yr effaith yn mynd ymhellach na'r rolau gweinyddol, ac yn cael effaith uniongyrchol ar y gallu i hyfforddi prentisiaid newydd.

Ffigur 4: Dosbarthu colled GYC oherwydd diswyddiadau fesul rôl



- Mae toriadau cyllid hefyd wedi arwain at ddiswyddiadau sylweddol ymhlith is-gontractwyr a oedd yn cefnogi'r rhaglenni prentisiaeth, gan arwain at gollu amcangyfrif o 26 o swyddi FTE ar draws y rolau hanfodol. Caiff y diswyddiadau hyn effaith yn bennaf ar rolau fel Aseswyr, Gweinyddwyr, Gweithwyr Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA), a Swyddogion Recriwtio - pob un yn hanfodol i ddarparu a sicrhau ansawdd y gwasanaethau hyfforddi.
- Mae cyfanswm y golled cyflog ymhlith is-gontractwyr yn £743,500, gyda cholled gysylltiedig GYC o tua £1.49 miliwn.

Cysylltu

Y Tîm Cyngori Economaidd

advisory@cebr.com

Disclaimer

Whilst every effort has been made to ensure the accuracy of the material in this document, neither Centre for Economics and Business Research Ltd nor the report's authors will be liable for any loss or damages incurred through the use of the report.

Authorship and acknowledgements

This report has been produced by Cebr, an independent economics and business research consultancy established in 1992. The views expressed herein are those of the authors only and are based upon independent research by them. The report does not necessarily reflect the views of ACI Worldwide.

London, November 2024

© Centre for Economics and Business Research Ltd
www.cebr.com